

# Comin Llandeilo



## PROSIECT 50 MLYNEDD I GREU RHWYDWAITH O BYLLAU DŴR GLÂN AR GYFER BYWYD GWYLLT DŴR CROYW

### Cefndir

- Mae'r daflen ffeithiau hon yn adolygu'r problemau a gafwyd yn ystod y prosiect hwn i greu pyllau ar Gomin Llandeilo. Nod y prosiect oedd creu pyllau bach, bas ar gyfer y pelenllys (*Pilularia globulifera*) sy'n rhedynen ddyfrol, a'r perdsyn gwisgi (*Chirocephalus diaphanus*) sy'n infertebrat, a darparu rhagor o ddŵr i dda byw. Crëwyd cyfanswm o naw o byllau, ond cafodd saith eu llenwi wedyn gan nad oeddent yn dal dŵr.
- Mae'r prosiect yn dangos sut y mae gwybodaeth dda am ddaear a hydroleg leol a chyfathrebu da rhwng rhanddeiliaid yn allweddol o ran sicrhau llwyddiant prosiect creu pyllau.
- Tir comin dan berchnogaeth breifat yw'r ardal, a borir gan ddefaid a merlod. Mae'r safle wedi'i ddyndodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).



**Ffigur 1. Delwedd lloeren o Gomin Llandeilo, sef ardal o rostir ar ucheldir ym Mhowys yng nghanolbarth Cymru.**

### Pwyntiau Allweddol

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dangos bod yn rhaid i waith creu pyllau:

- Gael ei gynllunio'n ofalus – ac mae hynny'n cynnwys ymchwilio i'r ddaear a'r hydroleg leol.
- Cael ei oruchwylio'n ofalus wrth i'r pyllau gael eu cloddio ar y safle.
- Cael ei gefnogi gan bawb sy'n ymwneud â'r safle.



**Y pelenllys** – rhywogaeth a geir mewn pyllau tymhorol, ansefydlog a gaiff eu pori gan dda byw.


### Bodloni meini prawf y Prosiect Miliwn o Byllau

Roedd cysyniad y prosiect yn gadarn o ran y ffaith y byddai'r pyllau newydd yn bodloni pob un o feini prawf y Prosiect Miliwn o Byllau:

- **Dŵr glân** – roedd y pyllau mewn cynefinoedd rhos o safon ar yr ucheldir lle nad oedd llygredd.
- **Dim byd yn cael ei ychwanegu atynt** – byddai'r pyllau yn cael eu cytrefu'n naturiol.
- **Dim byd i aflonyddu arnynt** – ni chaiff y safle ei bori'n ddwys, ac mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd sydd y tu hwnt i'r llwybrau troed yn profi pwysau cymharol fach gan gerddwyr neu bobl sy'n mynd â chŵn am dro.

- **Egwyddorion dylunio** – Mae ar y pelenllys angen ardaloedd helaeth a ddaw i'r golwg pan fydd lefelau dŵr yn codi ac yn gostwng, ac mae'r berdysyn gwisgi yn un o rywogaethau arbenigol pyllau dros dro. Felly, mae'r ddwy rywogaeth yn elwa o byllau sy'n sychu bob blwyddyn. Caiff yr ardal ei phori, a'r gobaiith oedd y byddai sborau'r pelenllys ac wyau gorffwys y berdysyn gwisgi'n cael eu cyflwyno i'r pyllau newydd wrth i dda byw grwydro'r comin.

## Map bras sy'n dangos y pyllau a grëwyd ar Gomin Llandeilo



**Ffigur 2. Map bras o'r ardal**

## Cynllunio a pharatoi

- Mae llawer o byllau dŵr wyneb yn bodoli'n agos iawn at leoliad y pyllau newydd. Gan fod yr hinsawdd leol yn eithaf gwlyb, a chan fod dalgylchoedd posibl y pyllau'n eithaf helaeth, tybiwyd nad oedd angen ymchwilio ymhellach i'r ddaear a'r hydroleg leol ac y byddai'r pyllau yn dal dŵr am ddigon o amser i ddarparu cynefin i'r pelenllys a'r berdysyn gwisgi.
- Cafwyd caniatâd ar gyfer y prosiect gan y tiffeddiannwr, ac oherwydd bod y comin yn SoDdGA cafwyd caniatâd hefyd gan swyddog lleol Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn ddelfrydol, dylid bod wedi ymgynghori â'r porwyr hefyd, ond gan fod y tiffeddiannwr wedi cytuno â'r prosiect ni chafodd hynny ei wneud am ryw reswm.
- Yn ystod ymweliadau â'r safle, nodwyd lleoliadau ar gyfer y pyllau mewn ardaloedd lle'r oedd grug o ansawdd is neu mewn ardaloedd bach lle'r oedd grug wedi'i losgi at ddiobenion rheoli, fel na fyddai'r gwaith o wasgaru'r rwbel ar ôl cloddio'r pyllau yn cael fawr ddim effaith ar yr ardal gyfagos.

## Adeiladu

- Defnyddiwyd peiriant cloddio bach 2 dunnell â thraciau, a gafodd ei yrru gan contractwr lleol, i gloddio naw pwll dros gyfnod o bythefnos yn nhymor yr hydref 2009. Dewiswyd peiriant cloddio bach oherwydd ei bod yn anodd cael mynediad i'r safle hwn ar yr ucheldir, ac er mwyn helpu i atal difrod i lystyfiant sensitif y rhostir.
- Gadawyd y contractwr heb oruchwyliaeth. O ganlyniad, hyd yn oed pan ddylai fod wedi bod yn amlwg nad oedd yn debygol y byddai'r isbridd yn dal dŵr yn iawn – siâl bras a thywod ydoedd yn bennaf, heb ddim clai neu heb fawr ddim clai – daliwyd ati i gloddio rhagor o byllau. Gyda goruchwyliaeth ddigonol, byddai lleoliad y pyllau wedi ei newid neu byddai'r cynllun cyfan wedi'i ohirio nes bod tyllau prawf wedi eu cloddio a'u monitro.



- Roedd y diffyg goruchwyliaeth yn golygu hefyd bod y pyllau newydd wedi eu dylunio'n wael – roeddent yn debycach i dyllau a achosir gan fomiau na phyllau naturiol:
  - Roedd glannau ac ochrau'r pyllau yn rhy serth – ac roedd hynny'n lleihau'r ardaloedd a fyddai'n dod i'r golwg pan fyddai lefelau'r dŵr yn gostwng, ac felly'n lleihau addasrwydd y pyllau ar gyfer y rhywogaethau targed.
  - Yn hytrach na bod y rwbel yn cael ei wasgaru o amgylch ymylon y pyllau, cafodd ei dirlunio i greu 'min' o amgylch y pyllau ac roedd hynny'n atal dŵr wyneb ffo rhag mynd i mewn iddynt (gweler isod).



**Ffigur 3. Ar y chwith: Pwll newydd sy'n dangos mor serth oedd glannau'r pwll. Ar y dde: Cafodd rwbel ei ollwng o amgylch ymyl y pyllau newydd gan greu min a oedd yn atal dŵr wyneb ffo rhag mynd i mewn iddynt. Mae'r llinell o ddotiau glas yn dangos llwybr dŵr wyneb ffo o *ddalgylch posibl y pwll* – ond cafodd dalgylch y pwll ei leihau'n sylweddol – mae'r llinell o ddotiau coch yn dangos *dalgylch gwirioneddol y pwll*. (Ffotograffau: Pond Conservation)**

## Canlyniad

- Oherwydd natur yr isbridd a'r gwaith dylunio gwael a oedd yn cyfyngu ar faint dalgylch y pyllau, dim ond am gyfnod byr ar ôl glaw trwm yr oedd y pyllau'n dal dŵr – ac nid oedd y cyfnod hwnnw'n ddigon hir i llystyfiant gwlyptir ymsefydlu.
- Gan fod y pyllau wedi methu â chreu cynefin bywyd gwyllt na ffynonellau dŵr ychwanegol ar gyfer da byw, a chan eu bod wedi eu dylunio mor wael, cafodd pob un ond dau eu llenwi yn 2012.
- Caiff y ddau bwll sy'n weddill eu tirlunio eto er mwyn iddynt allu cael dŵr ffo o'r tir cyfagos, a chaiff eu glannau eu gwneud yn fwy bas er mwyn creu ardaloedd mwy helaeth a fydd yn dod i'r golwg pan fydd lefelau dŵr yn gostwng, fel bod dyluniad y pyllau'n efelychu pyllau presennol y safle. Gydag amser, mae'n bosibl y bydd y pyllau'n eu selio eu hunain wrth i dda byw gywasgu'r gwaddod ac wrth i silt olchi i mewn iddynt.
- Mae'r porwyr yn gweithio gyda swyddog y Cyngor Cefn Gwlad yn awr i nodi ymhle y gellid lleoli pyllau newydd.



**Ffigur 4. Byddai'r pyllau newydd a grëwyd yn 2009 yn llenwi â dŵr ond yna'n ymddangos yn wag yn fuan wedyn. Tynnwyd y ffotograffau hyn bythefnos ar wahân i'w gilydd. (Ffotograffau: Pond Conservation.)**

## Cost a chyllid

- Cyfanswm cost cloddio'r naw pwll oedd £1725.00, a thalwyd am y gwaith â grant gan Biffaward drwy Gronfa Cloddio Pyllau'r Prosiect Miliwn o Byllau.
- Amcangyfrifir mai tua £300 oedd cost llenwi saith o'r pyllau.
- Caiff gwaith tirlunio i wella dyluniad y ddau bwll sy'n weddill ei wneud gan wirfoddolwyr gyda'r Ymddiriedolaeth Natur leol.

## Gwersi a ddysgwyd:

- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen i chi gloddio a monitro tyllau prawf er mwyn asesu gallu'r isbridd i ddal dŵr. Gall tyllau prawf fod mor fach neu mor fawr ag y mae angen iddynt fod, yn dibynnu ar ddyluniad y pyllau yn y cynllun arfaethedig. Gellir eu cloddio â llaw neu gellir eu cloddio gan ddefnyddio peiriant cloddio, a bydd hynny eto'n dibynnu ar raddfa'r cynllun, manylebau'r dyluniad (ai pwll parhaol ynteu pwll dros dro yr ydych am ei gael?) a'r cyllid sydd ar gael.
- Dylid sicrhau y cysylltir â phob parti perthnasol a'u bod i gyd yn cytuno â'r cynllun cyn i'r gwaith gael ei wneud.
- Dylid sicrhau bod y contractwr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol a'i fod yn cael ei oruchwylio'n briodol. Yn ddelfrydol, dylid llunio cynlluniau - gallant fod yn fras neu'n fanwl, yn dibynnu ar gymhlethdod y cynllun, a dylai'r amodau lleol gynnwys arwynebedd, dyfnder eithaf ac onglau glannau'r pwll.

I gael rhagor o gyngor am greu pyllau, gweler y Pecyn Cymorth Creu Pyllau.

**I gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect Miliwn o Byllau ac i weld taflenni ffeithiau eraill yn y Pecyn Cymorth Creu Pyllau, ewch i [www.pondconservation.org.uk/millionponds](http://www.pondconservation.org.uk/millionponds) neu e-bostiwch eich ymholiadau i'r cyfeiriad canlynol: [info@pondconservation.org.uk](mailto:info@pondconservation.org.uk)**